


Rhifyn 45 Gaeaf 2003 Am ddim/Free

# Cadwyn



Y cylchgrawn i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg The magazine for Welsh speakers and learners



Cyhoeddir 15,000 o CADWYN Cyd dair gwaith y flwyddyn fel arfer. Cyfle gwych i hysbysebu





### Llywydd Anrhydeddus

Yr Athro Bobi Jones

### Cadeirydd

Mary Burdett-Jones

### Is-gadeirydd

Kathryn Hughes

### Trysorydd

Emyr-Wyn Francis

### Ysgrifennydd Cyffredinol a Chadeirydd yr Is-bwyllgor

### Marchnata a Chyhoeddi

Glyn Saunders Jones

### Rheolwr Swyddfa

Jaci Taylor (01970) 622143 e-bost: jct@aber.ac.uk

### Rheolwr y Gogledd

Rhodri Francis (01970) 628599 e-bost: rhf@aber.ac.uk

### Rheolwr y De

Martin Davies (01554) 776587 e-bost: davieswizlet@aol.com

Os ydych am wybod pwy yw'r Swyddog Cyswllt Cyd, neu'r Swyddog Dysgwyr neu Swyddog Croesi'r Bont yn y fenter iaith agosaf atoch, cysylltwch â -

*If you would like to know who is the Cyd Liaison Officer, or the Learners' Officer or Crossing the Bridge Officer in the nearest Welsh-language initiative to you, contact*

### Swyddfa Cyd Office

10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU

ffôn/ffacs: 01970 622143

e-bost: cyd@aber.ac.uk

y we: www.aber.ac.uk/cyd

Mae **Cadwyn Cyd** yn ymddangos dair gwaith y flwyddyn Dyddiadau cyhoeddi arferol: Mawrth, Mehefin, Tachwedd

Mae Cyd yn elusen gofrestredig rhif 518371

Cefnogir gwaith Cyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Cyhoeddwyd gan/Published by: Cyd, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU. Argraffwyd a dylunwyd gan/Printed and designed by: Cambrian Printers



### Aric Vaughan a Charlie Llŷr

Tybiaf a fydd Aric a Charlie yn tynnu ar ôl eu tad?

Toby Driver yw enw eu tad, y dyn sy'n llunio'r cartwnau i Cadwyn.

Mae Aric yn dysgu Cymraeg.

*I wonder whether Aric a Charlie will take after their father.*

*Their father's name is Toby Driver, the man who draws the cartoons for Cadwyn.*

*Aric is learning Welsh.*

## GAIR O'R GADAIR

Mae Cyd, er gwaethaf prinder arian, yn ceisio cynnig gwasanaeth i ddysgwyr ledled Cymru, hyd yn oed yn yr ardaloedd Seisnigedig. Calonogol oedd clywed bod 36 o bobl wedi cymryd rhan yn rownd gyntaf Cwis Cenedlaethol Cyd yn Llandrindod, rhai yn dod o bell er mwyn ymuno yn yr hwyl. Mae angen Cyd er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer â'r iaith, yn arbennig yn yr ardaloedd Seisnigedig.



Mae llawer o sôn am yr ardaloedd Cymraeg yn cael eu bygwth gan 'y mewnlifiad'. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddweud nad wyf yn hoffi clywed na darllen y term 'mewnlifiad' wrth gyfeirio at fewnfudwyr. Mae'n derm sydd yn eu trafod fel petaent yn don yn torri ar dir Cymru, yn hytrach nag fel unigolion. Beth bynnag yw'r rheswm pam y mae pobl wedi ymfudo i Gymru, pobl ydynt. Beth bynnag sy'n digwydd yn y dyfodol, mae angen rhoi pob cyfle i'r bobl sydd eisoes yma i ddysgu'r iaith, ac mae hynny yn cynnwys nid yn unig rhoi gwersi ffurfiol i'r newydd-ddyfodiaid ond hefyd rhoi cyfleoedd iddynt ymarfer yr iaith gyda phobl sy'n cydymdeimlo â'u hymdrechion, a chreu cyfleoedd iddynt gymdeithasu drwy gyfrwng eu hiaith newydd.

A sôn am wersi, rydym yn wirioneddol ddiolchgar i'r tiwtor-drefnyddion a'r tiwtoriaid am eu cydweithrediad parod gyda'n gwaith. Am flynyddoedd mae nifer ohonynt wedi gwneud gwaith fel gwaith Cyd yn wirfoddol. Gyda'u llwyth nhw yn mynd yn drymach oherwydd y galw am wersi, rydym yn gobeithio cymryd rhagor o'r baich oddi ar eu hysgywyddau, os cawn ni ddigon o adnoddau.

Diolch hefyd i'n hysbysebwy. Oni bai amdanoch chi ni fedrem gyhoeddi Cadwyn gan nad ydym yn derbyn grant ar gyfer cyhoeddi'r cylchgrawn. Mae'r cylchgrawn nawr ar y We, felly rydych yn cael gwerth eich arian!

*Cyd tries, despite a shortage of funds, to offer a service to learners throughout Wales, even in the Anglicised areas. It was heartening to hear that 36 people took part in the first round of Cyd's National Quiz in Llandrindod, with some coming from afar in order to take part in the fun. Cyd is needed in order to give learners a chance to practise the language, especially in the Anglicised areas.*

*There has been a lot of talk about the Welsh areas being threatened by the 'influx'. I would like to take this opportunity to say that I do not like to hear or read the term 'influx' in referring to immigrants. It is a term which treats them as if they were a wave breaking on the land of Wales, rather than as individuals. Whatever their reason for coming to live in Wales, they are people. What ever happens in the future, we need to give every opportunity to the people who are already here to learn the language, and this includes not only giving formal lessons to the newcomers but also giving them opportunities to practise the language with people who sympathize with their efforts, and to create opportunities for them to socialize through the medium of their new language.*

*Talking of lessons, we are truly grateful to the tutor-organisers and the tutors for their ready co-operation in our work. For years a number of them have been doing work like Cyd's voluntarily. With their loads becoming ever heavier because of the demand for lessons, we hope to take more of the burden off their shoulders, if we can obtain sufficient resources.*

*Thanks also to our advertisers. If it weren't for you we couldn't publish Cadwyn as we don't receive a grant to publish the magazine. The magazine is now on the internet, so you are getting value for your money!*

**Mary Burdett-Jones**

Cadwyn

**Ysgoloriaeth - Scholarship**  
**Dan Lynn James 2003**

**£500**

**Dyddiad Cau/Closing Date:**  
**1 Ebrill 2004/1 April 2004**

Pwrpas ysgoloriaeth Dan Lynn James yw rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr sydd am barhau i astudio/ddefnyddio'r Gymraeg. Ystyrir y cais gan banel ar ran Cyd a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ynghyd â dau aelod i'w cyfethol sydd a phrofiad ym maes dysgu Cymraeg i Oedolion. Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd eisoes yn gefnogwyr Cyd.

*This is a scholarship for Welsh learners to attend an advanced Welsh course/residential course; or a course on any subject through the medium of the Welsh language; or purchase books/cassettes. Preference given to Cyd members.*

Manylion a ffurflen gais/details and application form: Ysgoloriaeth Dan Lynn James, Cyd, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU

\*\* A wneuch chi anfon amlen â stamp os gwelwch yn dda?  
 Please enclose S.A.E.

## Dysgu'r gair 'Gweinyddol'

**Stephen West**

Ro'n i'n falch iawn o gael gwahoddiad i ddangos tri llun yn y Babell Celf a Chrefft yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mis Awst oherwydd bod Eisteddfod Maldwyn ym Meifod - sy'n eitha lleol i mi. Dwi wedi gweithio yn Llangadfan ers 1984 fel artist a gweinyddwr celf. Dwi'n gwneud cerfluniau a lluniau. Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tair blynedd, efo'r athrawes Mary Price. Dwi ar y Cwrs Pellach ym Machynlleth ar hyn o bryd. Ro'n i'n dysgu y gair 'gweinyddol' pan orffennais i lun sy'n dangos artist efo ei gerflun a dau weinyddwr celf, felly mi wnes i enwi y llun hwn 'Gweinyddol'. Eleni hefyd ro'n i'n gallu rhoi tic yn y blwch ar y ffurflen gais Celf a Chrefft 'Yr wyf yn siarad/ysgrifennu Cymraeg' - diwrnod pwysig! Roedd gen i ddau lun arall yn yr arddangosfa - mae'r llun 'Aaaaaa!' yn dangos dyn sydd wedi gwneud gormod o deithiau yn y car ac mae'r llun 'Sculpture Materials' yn cynnwys bil gan Boys a Boden a llun o gerflun. Yn aml dwi'n penderfynu defnyddio darnau o bapur sydd ar lawr y swyddfa neu'r stiwdio. Weithiau dwi'n ychwanegu nodau post-it at y lluniau - dydw i ddim yn weithiwr taclus!



## Geirfa

gwahoddiad	invitation
Pabell Celf a Chrefft	Art and Craft Tent
lleol	local
gweinyddwr celf	arts administrator
cerfluniau	sculptures
Cwrs Pellach	Advanced Course
gweinyddol	administrative
gorffen	to finish
enwi	to name
blwch	box
pwysig	important
arddangosfa	exhibition
teithiau	journeys

## BYWYD BETI BACH

gan Taby Driver



Cadwyn

## DE - ORLLEWIN CYMRU

## Cyd Bro'r Preseli



Tynnwyd y llun 'ma ar daith Cyd Bro'r Preseli i Foel Cwm Cerwyn yn y Preselau yn 1997. Mae'r ddiweddar Robina Elis-Gruffydd yn y rhes gefn gyda'i gŵr Dyfed

Cynhaliwyd taith gerdded o gwmpas Castell Ceirw ar y 22ain o Fawrth 2003 er cof am un o'n haelodau mwyaf selog sef Robina Elis-Gruffydd cyn tiwtor-drefnydd Cymraeg i Oedolion Sir Benfro. Daeth grŵp mawr o'i ffrindiau, cydweithwyr a chefnogwyr Cyd o bob rhan o'r sir, y rhan fwyaf wedi bod yn cwrdd â hi yn rheolaidd drwy weithgareddau'r gangen dros y blynyddoedd diweddar. Roedd yn gysur i bawb i gael rhannu atgofion melys ac i fwynhau harddwch yr ardal. Mwynhawyd y tywydd mwyn a'r awyrgylch cyfeillgar gan bawb. Pleser o'r mwya oedd gweld Dyfed. Diolch i bawb a ddaeth i dalu eu teyrnged i Robina mewn ffordd y byddai hi wedi gwerthfawrogi. Disgwylir i'r gangen sefydlu gweithgaredd blynyddol er cof amdani. Gwerthfawrogrir unrhyw awgrymiadau a all gael eu hystyried ar gyfer y diben hwn gan unrhyw un o'i ffrindiau. Cysylltwch â Margaret James neu Delia Abbott trwy Cyd Bro'r Preseli. Cynhelir cyfarfod â Chlwb Cleber ar y dydd Gwener cyntaf o bob mis am 10.30am yn Nhafarn y Crymch Arms.

Margaret James, Tiwtor Cymraeg i Oedolion ac Ysgrifennydd Cyd Bro'r Preseli.

Mae'r adroddiad canlynol wedi'i ysgrifennu gan Albie Abbott, Cyd Bro'r Preseli, ac ymddangosodd yn y papur lleol *Cardi Bach*. Diolch i Albie am wneud hynny.

## Cerdded er cof am Robina

Ar ddydd Sadwrn, Mawrth 22ain daeth grŵp o bobl at ei gilydd er cof am Robina Elis-Gruffydd, er mwyn cynnal Taith Gerdded i'w chofio hi. Penderfynwyd cynnal y daith o gwmpas Castell Carew gan Gangen Cyd Bro'r Preseli - un o'r grwpiau a oedd yn agos at ei chalon. Yr oedd 'na fwy na thri-deg yn bresennol yn cynnwys ei chyd-diwtoriaid, ffrindiau ac, wrth gwrs, llawer o'i dysgwyr. Yr oedd yn arbennig o dda gweld Dyfed yno hefyd a'i fod wedi gwella cymaint. Ar ôl ychydig o eiriau i'r grŵp gan Wyn Owen, cerddom i lawr y llwybr tuag at yr hen Felin. Cerddais hyd at y Felin gyda thiwtor o Faenclochog a chofiais taw 'HI' oedd y tiwtor y tro cyntaf erioed es i i 'Sadwrn Siarad'. Rwyf yn cofio gwneud sawl peth y diwrnod hwnnw ond y peth rwyf yn ei gofio fwyaf oedd y Cloc Cymraeg. Gwyddoch chi sut mae hi pan rydych yn cael cân yn eich pen a dych chi ddim yn gallu cael gwared â'r peth? Wel, dyna sut oedd hi tan o leiaf 4 o'r gloch y diwrnod canlynol. Chysgais i ddim y noson honno ond wna i byth angofio'r cloc!

Wedi i ni gyrraedd y Felin, stopiodd rhai i wneud y gorau o'r golygfeydd, cyn cario ymlaen ar draws yr argae. Wedyn aeth y rhai mwy anturus ar lwybr arall tra cadwon ni at y priif lwybr. Yn ystod y daith gwelwyd llawer o adar gwyllt y dŵr, megis gwyllanod, hwyaid ac hyd yn oed elyrc'h!

Wedi'r daith, aeth y rhan fwyaf o'r grŵp i'r Carew Arms i gael lluniaueth ac

i sgwrsio gyda'i gilydd yng nghardd y dafarn. Trwy gydol y daith, disgleiriodd yr haul i lawr arnom. Yr oedd hi'n ddiwrnod perffaith i'w chofio HI.

Albie Abbott

## Robina

Mae siwr bod cannoedd o ddysgwyr oedd yn nabod Robina Elis-Gruffydd, fel tiwtor dosbarth wythnosol, fel trefnydd dosbarthiadau, fel tiwtor ar Sadyrnau Siarad a chyrtsiau preswyl, neu fel chefnogwr Cyd. Roedd hi'n adnabyddus iawn - ymysg dysgwyr ledled Cymru, ond yn enwedig yn ardal Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin - nid yn unig fel tiwtor, ond fel person arbennig iawn, oedd yn dod â hwyl i bob sefyllfa. Person llawn egni, brwdfrydedd, hiwmor, ac wastad â gwên gynnes ar ei hwyneb. Teimlodd pob un ohonon ni ein bod ni wedi colli ffrind annwyl iawn pan glywon ni ei bod hi wedi cael ei lladd mewn damwain ddiweddd mis Tachwedd 2002.

Mae Robina wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer ohonon ni, ac felly ar ôl ei marwolaeth, penderfynwyd creu Tlws Coffa Robina, er mwyn cynnal a meithrin yr ysbrydoliaeth honno. Mae cynrychiolwyr Cyd yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Fenter Iaith Sir Benfro ac OGAM i drefnu'r Tlws, a fydd yn hyrwyddo a gwobrwyo cyfraniadau at y pethau roedd Robina yn gweithio drostyn nhw. Felly bydd y Tlws - sef cerflun cain gan grefftwr lleol - yn cael ei gyflwyno yn flynyddol i'r gwaith neu brosiect sy'n cyfrannu orau at les yr iaith Gymraeg, dysgwyr, neu unrhyw agwedd ar etifeddiaeth Cymru o ran amgylchedd a diwylliant. Bydd yn bosibl ceisio am y Tlws fel unigolyn, neu fel grŵp anffurfiol neu ffurfiol, megis ysgol, capel, gangen Cyd, elusen, mudiad a.y.b. sy'n gweithredu yn ardaloedd Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Tan ddiweddd mis Chwefror 2004, rydyn ni'n casglu arian at y Tlws a gweithgareddau cysylltiedig. Os hoffech chi gyfrannu at y Gronfa hon er cof am Robina, anfonwch eich cyfraniad at Des Davies, Tŷ'r Ysgol, Ysgol y Preseli, Crymch, Sir Benfro, SA41 3QH (sieciau'n daladwy i Gronfa Goffa Robina).

(Bydd y Tlws yn cael ei gyflwyno am y tro cyntaf yng Ngwanwyn 2004. Am fanylion pellach a ffurflen gais/enwebu cysylltwch â'r cyfeiriad uchod.)

*There are probably hundreds of learners who knew Robina Elis-Gruffydd. As tutor of a weekly class, as organiser of courses, as tutor on a Sadwrn Siarad or a residential course, or as a supporter of Cyd. She was very well known - amongst learners all over Wales, but especially in Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthenshire - not only as a tutor, but as a very special person who brought fun to every situation. A person full of energy, enthusiasm, humour, and always with a warm smile on her face. Each one of us felt that we had lost a dear friend when we heard that she had been killed in an accident at the end of November 2002.*

*Robina has been an inspiration to many of us, and so after her death, it was decided to create a Robina Memorial Trophy, in order to maintain and nurture that inspiration. Representatives of Cyd are working with Menter Iaith Sir Benfro and OGAM to set up the Trophy, which will promote and reward contributions to the things Robina worked for. Therefore the Trophy - a fine sculpture by a local craftsman - will be presented annually to the work or project which best contributes to the welfare of the Welsh language, Welsh learners, or any aspect of Welsh heritage in terms of the environment or culture. It will be possible to try for the Trophy as an individual, or an informal or formal group, such as a school, chapel, Cyd group, charity, movement etc which operates in Ceredigion, Pembrokeshire and/or Carmarthenshire.*

*Until the end of February 2004, we are collecting money for the Trophy and related activities. If you'd like to contribute to this Fund in memory of Robina, send contributions to Des Davies, Tŷ'r Ysgol, Ysgol y Preseli, Crymch, Sir Benfro, SA41 3QH (cheques payable to Cronfa Goffa Robina).*



## Dehongli Cymru - Ysgol Dridiau 2003



Cwis Cyd a gynhaliwyd yn y Cŵps yn Aberystwyth

Mae cofrestru fel aelod o'r Ysgol Dridiau yn ffordd dda iawn o ddysgu mwy am gelfyddyd, diwylliant a chymdeithas yng Nghymru. Trefnir Dehongli Cymru gan Y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad, Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Bob blwyddyn mae Cyd yn cynnal cwis gyda'r nos fel rhan o'r rhaglen gymdeithasol. Dyma rai o aelodau'r cwrs eleni yn y Cŵps gyda'u gwobr ar ôl brwydro yn y cwis.

## Penwythnos Cyd yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn

Penwythnos llawn hwyl a sbri dringo  
canwio  
cerdded  
hanes Y Bala  
cymdeithasu  
a siarad Cymraeg wrth gwrs



Canwio gyda Cyd yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn, Y Bala



Ymweliad â Chapel Thomas Charles, Y Bala

## HOLIADUR Cyd C y d Q U E S T I O N N A I R E

A wnewch chi lanw'r holiadur a'i anfon atom, os gwelwch yn dda?  
*Will you fill in the questionnaire and send it to us, please?*

**Cadwyn** Ydych yn hoffi Cadwyn?  
*Do you like Cadwyn?*

- Ydw / Yes
- Nac ydw / No  Os na, pam? / *If not, why?*

- sgrifennwch yma / *write here*.....

Beth ydych yn ei hoffi yn Cadwyn? (ticiwch faint liciwch!)  
*What do you like in Cadwyn? (tick as many as you like!)*

- clywed am ddysgwyr mewn rhannau eraill o Gymru / *hearing about learners in other parts of Wales*
- darllen am lyfrau / *reading about books*
- dysgu am Gymru / *learning about Wales*
- y cartwn? / *the cartoon?*
- arall / *other*

- sgrifennwch yma / *write here*.....

Ydych chi eisiau rhagor o newyddion o'r canghennau? / *Would you like more news from the branches?*

Ydych chi eisiau rhagor o erthyglau am lyfrau? / *Would you like more articles about books?*

Ydych chi eisiau rhagor o erthyglau am gymdeithasau Cymraeg? / *Would you like more articles about Welsh societies?*

Ydych chi eisiau rhagor o erthyglau am / *Would you like more articles about*

- theatr / *theatre*
- dawns / *dance*
- gigs / *gigs*
- byd natur / *nature*
- hanes / *history*
- daearyddiaeth / *geography*
- gwyddoniaeth / *science*
- arall / *other*

- sgrifennwch yma / *write here*.....

### Gweithgareddau Cyd / *Cyd activities*

Ydych chi'n hoffi / *Do you like*

- boreau coffi / *coffee mornings*
- sesiynau mewn tafarn / *sessions in pubs*
- teithiau cerdded / *walks*
- gigs / *gigs*
- ymweliadau i leoedd o ddiddordeb / *visits to places of interest*
- arall - sgrifennwch yma / *other*

- sgrifennwch yma / *write here*.....

### Dysgwyr / *Learners*

Ydy Cyd wedi eich helpu chi i / *Has Cyd helped you to*

- gwrd â phobl drwy gyfrwng y Gymraeg / *meet people through the medium of Welsh*
- ddod yn gyfarwydd ag acenion gwahanol / *become familiar with different accents*
- fagu hyder i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth / *develop confidence to speak Welsh outside the classroom*
- arall / *other*

- sgrifennwch yma / *write here*.....

Trosodd / *Over*



## HOLIADUR Cyd Cyd QUESTIONNAIRE

### Gwirfoddolwyr / Volunteers

Beth mae gweithio gyda Cyd yn ei roi i chi? / What does working with Cyd give you?

- cyfle i groesawu dysgwyr i'r gymuned Gymraeg / a chance to welcome learners to the Welsh-language community
- cyfle i ddod i adnabod pobl / a chance to get to know people
- cyfle i gwrdd â phobl ddiddorol / a chance to meet interesting people
- gwneud cyfraniad i achub yr iaith / make a contribution to saving the language
- arall other

- sgrifennwch yma / write here.....

### Cynllun Pontio / Bridging Scheme

A fydddech yn hoffi cael gwirfoddolwyr i ddod i mewn i'ch dosbarth am hanner awr ar ddiwedd eich gwrs i sgwrsio gyda chi? / Would you like volunteers to come into your class for half an hour at the end of the lesson to talk to you?

Ydych chi'n fodlon sgwrsio am eich profiadau gyda Cyd? / Are you willing to discuss your experience of Cyd's work?

- ar y ffôn / on the phone
- drwy ffacs / by fax
- drwy e-bost / by e-mail
- drwy bost malwoden / by snail mail

A fydddech yn hoffi cymryd rhan mewn grŵp ffocws i drafod gwaith Cyd? / Would you be willing to take part in a focus group to discuss the work of Cyd?

- yn eich ardal / in your area
- yn Aberystwyth / in Aberystwyth

Rwyf / I am

- yn ddysgwr / a learner
- yn wirfoddolwr / a volunteer
- yn diwtor / a tutor

Enw / name:

Cyfeiriad / address:

Ffôn / Phone:

Ffacs / Fax:

E-bost / E-mail:

Cysylltwch â ni, rydym eisiau clywed gennych / Do contact us, we want to hear from you:

Cyd: 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AU,  
ffôn/ffacs: 01970 622143, e-bost: cyd@aber.ac.uk  
Diolch yn fawr! / Thank you very much!

## Soar y Mynydd

- Capel enwog yw Soar y Mynydd. Efallai mai dyma'r capel mwyaf anghysbell yng Nghymru.
- Ble felly mae'r capel hwn? Wel, os ewch chi ar y ffordd sy'n arwain tua'r dwyrain o Dregaron, Ceredigion, tuag at Abergwesyn a Llyn Brianne fe ddewch chi, ymhen tua 9 milltir, at gapel yng nghanol y mynyddoedd ar lan Afon Camddwr, ym mhlwyf Llanddewibrefi. Dyma Soar y Mynydd.
- Codwyd y capel yn yr 1820au gan Ebenezer Richards a'i ymddiriedolwyr. Ef oedd Gweinidog Tregaron ar y pryd. Daeth ei fab Henry (1812 - 1888) yn enwog iawn. Galwyd ef yn Apostol Heddwch ac mae cofgolofn iddo ar sgwâr Tregaron.
- Y mae pensaerniaeth y capel yn draddodiadol gyda dau ddrws yn y mur lletaf a'r pwlpudd rhwng y drysau. Y tu ôl i'r pwlpudd mae'r adnod 'Duw cariad yw'. Mae lle i eistedd tua 120 o bobl yn y capel.
- Does dim goleuadau o gwbl yn y capel a does dim gwasanaethau yno yn y gaeaf. Cynhelir oedfa Gymraeg bob Sul am 2 o'r gloch yn ystod misoedd yr haf ac ar y Sul olaf ym mis Awst cynhelir y cyrddau pregethu blynyddol.
- O dan yr unto mae adeilad a fu'n ysgol i'r ardal tan y 1940au. Y mae yno hefyd stablau lle'r arferai'r saint gadw eu ceffylau.
- Mae mynwent o flaen y capel gydag oddeutu 20 wedi eu claddu yno. Pedair carreg fedd sydd yno, a'r olaf i goffâu'r Meddy John D Griffiths a fu farw yn 2001.
- Os ewch chi i Soar y Mynydd cofiwch dorri eich enw yn y llyfr ymwelwyr. Fe welwch fod y capel enwog yn boblogaidd gyda theithwyr o lawer gwlad.



Gareth Lloyd Hughes ©

Ffynonellau

Capeli Cymru, gan Penri Jones

Welsh Chapels, gan Anthony Jones

(Y Lolfa, 1980).

(Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, 1996).

### Geirfa

capel enwog	famous chapel	goleuadau	lights
mwyaf anghysbell	most remote	gwasanaethau	services
dwyrain	east	oedfa	meeting
plwyf	parish	cyrddau pregethu	preaching festival
1820au	1820s	blynyddol	annual
ymddiriedolwyr	trustees	o dan yr un tŷ	under the same roof
gweinidog	minister	stablau	stables
ar y pryd	at the time	saint	saints
Apostol Heddwch	Apostle of Peace	mynwent	graveyard
cofgolofn	monument	claddu	buried
pensaerniaeth	architecture	carreg fedd	gravestone
traddodiadol	traditional	coffâu	to commemorate
y mur lletaf	the widest wall	cofiwch	remember
pwlpudd	pulpit	torri eich enw	sign your name
adnod	verse	llyfr ymwelwyr	visitors book
'Duw cariad yw'	'God is love'	boblogaidd	popular

## CEREDIGION A'R DE-ORLLEWIN

Ysgol Gyfun  
Penweddig a Cyd  
Aberystwyth

Ers chwe blynedd bellach mae disgyblion y chweched isaf yn Ysgol Penweddig, trwy gydweithrediad â Cyd Aberystwyth, yn gwirfoddoli drwy sgwrsio yn nosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn y Brifysgol.

Yn ystod hanner awr olaf y wers rhennir y dosbarth yn grwpiau i ymarfer siarad yr iaith. Yn wythnosol dan arweiniad Felicity Roberts, tiwtor y dosbarth, ceir gwahanol siaradwyr a chyfle i'r dosbarth gyfnewid syniadau a chyfarwyddo â gwahanol tafodieithoedd.

Y tymor yma daeth chwech ar hugain o ddisgyblion y chweched isaf aton ni ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw flwyddyn ar ôl blwyddyn am ymroi i helpu'r dysgwyr, ac i gynorthwyo Cyd gyda'r Cynllun Pontio, h.y. y bont sydd yn cysylltu'r dysgwyr â'r Cymry Cymraeg. Ann Jones Ysgrifennydd Cangen Cyd Aberystwyth

*In this note Ann Jones is saying how indebted and grateful Cyd Aberystwyth is to the 26 pupils from Penweddig School for volunteering to help Welsh learners. They take part in Cyd's Bridging Scheme by visiting learners for the last half hour of their Welsh class to converse with them in Welsh, under the supervision of Felicity Roberts, who pioneered the scheme.*

Mae'n brofiad braf i fod yn rhan o Cyd ac i fynychu'r sesiynau siarad. Wrth siarad gyda'r dysgwyr gallaf weld fod y profiad yn un positif iddyn nhw ac i mi. Mae'n braf eu gweld yn ymlacio gyda phobl ifanc a rhannu eu profiadau. Rydym yn dysgu llawer yn y sesiynau hyn.

Ruth Eluned Evans Ysgol Penweddig

*Ruth, one of the volunteers, explains what a positive, interesting experience they have had helping Welsh learners.*



Ruth Eluned Evans

## Cyd Castellnewydd Emlyn

Margaret Holman

Noson diwyllianol fu 'da ni ym Mehefin a thý ein cadeirydd dan ei sang gyda Chymraesau, dysgwyr a ffrindiau. Cyfrannodd pob aelod i'r noson arbennig hon gan adrodd barddoniaeth, yn sôn am eu diddordebau neu hyd yn oed stori fach. Noson i 'w chofio!

Ym mis Gorffennaf pleser unwaith eto oedd croesawu Jon Meirion Jones, aelod o deulu enwog 'Y Cilie' i'n plith. Mae hyn yn 'achlysur' blynyddol erbyn hyn ac fel arfer cawson ni noson ddfyr tu hwnt yn ei gwmmi. Fe wnaeth amser hedfan wrth iddo ddilyn hanes gyrfaedd y teulu galluog ac unigryw hwn. Cafwyd noson llawn hwyl gan ein gadael ag atgofion lu. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf!

Ailddechreuwyd y tymor pan ddaeth aelodau ynghyd, wedi seibiant mis Awst, ag awgrymiadau ar gyfer y rhaglen newydd -- Pawb yn edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous, llawn gweithgareddau gwahanol. Diolchwyd i'r swyddogion i gyd am eu gwaith diflino a hwythau'n fodlon cario ymlaen. Daeth y cyfarfod i ben gyda the a chlonc.

Longyfarchiadau i Peter Moody, aelod ffyddlon o'r grŵp, sy wedi cael ei benodi yn Swyddog Dysgwyr yn ardal Menter Bro Teifi.



Gig Cyd ac UMCA (Undeb Myfyrwyr Cymru Aberystwyth) - Clwb Pêl-droed, Aberystwyth

## Cyn Tynnu'r Raffl

Peter Smith

Cadeirydd Cangen Cyd Aberystwyth

Gofynnwyd imi ddweud ychydig o eiriau cyn tynnu'r raffl er mwyn rhoi help i Cyd yn genedlaethol. Mae'n holl bwysig i ni fel dinasyddion Aberystwyth hybu gwaith Cyd mewn ardaloedd llai breintiedig nag Aberystwyth. Wedi'r cwbl nid oes gan bob tref yng Nghymru brifysgol. llyfrgell hawlfraint, a llawer o swyddi diogel, diddorol, sy'n talu'n dda.

Mae'n rhaid inni gadw'r iaith yn fyw, nid yn unig ymhlith y bobl hyn ond hefyd ymhlith gweithwyr y Rhondda ac arfordir Sir Fflint, heb anghofio am gefn gwlad Sir Faesyfed.

*Mae Cyd yn ddiolchgar iawn am haelioni Cyd Aberystwyth - Mary Burdett-Jones, Cadeirydd Cyd.*

## Geirfa

dinasydd/dinasyddion	citizen(s)
breintiedig	privileged
llyfrgell hawlfraint	copyright library
arfordir	coast
cefn gwlad	rural area
haelioni	generosity

planet  
The Welsh Internationalist

Llenyddiaeth • Celf • Yr Amgylchedd  
Cymdeithas • Gwleidyddiaeth • Addysg

*"Planet yw'r peth prin hynny yn y wasg Gymreig — cyhoeddiad gwybodus ac adlo-niannol sy'n gosod her i'r darllennydd — yn hanfodol ar gyfer unrhywun sydd o ddifrif ynglŷn â'r materion mawr sy'n ein gwynebu fel cenedl." — Huw Edwards*

The cultural magazine  
of the new Wales

[www.planetmagazine.org.uk](http://www.planetmagazine.org.uk)

[planet.enquiries@planetmagazine.org.uk](mailto:planet.enquiries@planetmagazine.org.uk)

# Cadwyn

## POWYS

### Cyd Llanidloes

Mwynheuson ni ein hunain ym Mharc Llwydiarth efo Harvey Morgan - taith ddiddorol dros ben. Roedd hi'n eitha braf, jyst ychydig o gawodydd, dyma'r lluniau, a rhestr Forei Ffwng. Ydych chi'n adnabod y ffwng sy yn y llun?

*We enjoyed ourselves in Parc Llwydiarth with Harvey Morgan - a very interesting walk. It was mostly fine, just a few showers, here are the pictures, and the list of fungi. Do you know the name of the fungus in the picture?*

Cawson ni daith odidog yn ardal Penmaenpwl efo Paul. Roedd hi'n braf iawn trwy'r dydd.

*We had a wonderful walk around Penmaenpool with Paul. It was fine all day.*

Keith a Margaret Teare

#### TAITH HEL FFWNG GWARCHODFA DOLYDD DYFNANT DARGANFOD FFWNG - HYDREF 2003

	Enw Lladin	Enw Cymraeg	Enw Saesneg
1	<i>Amanita citrina</i>	Cap Marwol Fflug	False Death Cap
2	<i>Amanita muscaria</i>	Amanita'r Gwybed	Fly Agaric
3	<i>Boletus edulis</i>	Cap Tyllog Bwytdwy	Penny Cep
4	<i>Boletus piperatus</i>	Peppery Bolete	
5	<i>Clitopilus prunulus</i>	Ffwng Blawdiog	The Miller
6	<i>Collybia butyracea</i>	Coes Wydn Seimlyd	Butter Cap
7	<i>Cortinarius triumphans</i>		
8	<i>Cystoderma amianthenum</i>		
9	<i>Daedalea quercina</i>	Maize Gill	
10	<i>Hygrocybe chlorophana</i>	Cap Cwyr	Snowy Wax Cap
11	<i>Hygrocybe niveus</i>	Cap Cwyr	Parot Wax Cap
12	<i>Hygrocybe psittacina</i>	Cap Cwyr	Sulphur Tuft
13	<i>Hypholoma fasciculare</i>	Torthau'r Tylwyth Teg	Brown Birch Bolete
14	<i>Lecaninum scabrum</i>	Cap Tyllog Brown y Fedwen	Coconut-scented Milk Cap
15	<i>Lactarius glycosmus</i>	Cap Llaeth Coconut	
16	<i>Lactarius torminosus</i>		
17	<i>Lactarius turpis</i>	Cap Llaeth Hyll	Ugly Milk Cap
18	<i>Lactarius subdulcis</i>		
19	<i>Lycoperdon foetidum</i>	Coden Fwg Drewllyd	Stinking Puffball
20	<i>Myena pura</i>		
21	<i>Myena galericulata</i>		Bonnet Mycena
22	<i>Paneolus rickenii</i>		
23	<i>Paneolus sphinctrinus</i>		
24	<i>Paxillus involutus</i>	Cap Mewn-dro	Brown Roll-rim
25	<i>Piptoporus betulinus</i>	Ysgwydd y Fedwen Fungus	Birch Bracket/Razor Strop
26	<i>Psilocybe semilanceata</i>	Madarch Hudol	Magic Mushroom
27	<i>Russula atropurpurea</i>	Cap Brau Llygatddu	Purple Black Russula
28	<i>Russula cyanoxantha</i>		Charcoal Burner
29	<i>Russula delicata</i>		
30	<i>Russula fragilis</i>		Toothed Russula
31	<i>Russula graveolens</i>		
32	<i>Russula nigricans</i>	Cap Brau Duol	Blackening Russula

Harvey Morgan



Harvey a chriw




Taith i Benmaenpool



Cangen Cyd Llandrindod

## Gogledd - ddwyrain Cymru



**UCAC**  
Undeb  
Genedlaethol  
Aithrawon  
Cymru

**- â'i galon yng  
Nghymru**

**Mae gan UCAC Gynllun Pontio  
ar gyfer ei aelodau sy'n ddysgwyr  
da. Holwch am fanylion.**

Ffôn: 01970-639950 E-bost: ucac@athrawon.com



Cangen Cyd y Rhyf



Cangen Cyd  
Bae Penrhyn  
/ Bae  
Colwyn

Cangen Cyd Glynceiriog





## MORGANNWG

Daeth 28 o bobl o ganghennau Cyd Maesteg a Bryn ynghyd i fwynhau noson gymdeithasol a swper blasus yn y Mochyn Du, Caerdydd



Taith Gerdded Aberdâr

Taith hanes a natur trwy Gwm Aman gyda Les Davies  
A history and nature walk through the Aman Valley with Les Davies

Swper yn yr Hen Dŷ Maesteg - dysgwyr Rhondda Cynon Taf yn ymuno â dysgwyr Maesteg



Clwb Bwyta Cyd yn Nhafam yr Arth, Llandrisant

Parti Ponty - Standin Cyd gyda Sali James

## Cyd Yn Werth y Byd!

Mary Neal

Fe ddechreuodd yn 2000. Roedd llythyr yn y Cambrian News oddi wrth Beti Jones, un o sylfaenwyr mudiad Cyd. Fe ddywedodd fod cyfle i bob dysgwr Cymraeg gwrrd â phobl amyneddgar a medrus yn y Gymraeg i ymarfer siarad yr iaith mewn caffi yn Aberystwyth.

Roedd yn swnio'n syniad da iawn i mi - dyna'r tro cyntaf i mi glywed am Cyd. Diolch i Beti. Roedd fy ngŵr a minne wedi bod yn dysgu'r iaith ers tipyn. Fe gychwynnon ni gyda chwrs *Linguaphone* cyn dod i Gymru. Wedi cyrraedd roedden ni'n ddigalon - doedd ein Cymraeg ddim yn hanner digon da i ddeall rhywun yn siarad nac i siarad ag unrhyw un. Fe wnaethon ni roi 'r gorau iddi.

Ond fe fethodd yr iaith roi'r gorau i ni. Bob hyn a hyn dyma ni'n ailddechrau'r frwydr. Gyda fferm odro doedd dim amser i fynd ar gysiau. Ein hofferynnau ni oedd tapiau a llyfrau - a dros y blynyddoedd fe enillion ni eirfa eithaf da.

Tua phum mlynedd yn ôl, daeth yr egni o rywle i wneud yr ymdrech olaf. Fe benderfynon ni wneud yn awr bob bore Mercher yn awr Gymraeg. Roeddem yn teimlo fel taflu ein hunain i'r dwfn.

Dyma ddechrau gwrando ar Radio Cymru a methu deall yr un gair! Yna dechrau siarad â'n gilydd mewn Cymraeg yn unig. Anobeithiol! Ond roedden ni'n dal ati am awr bob dydd. Yr un peth yr wythnos wedyn. Beth bynnag, o dipyn i beth estynnwyd yr awr o Gymraeg i ddwy ac wedyn i fore ac yna i siarad Cymraeg trwy'r dydd.

Oddeutu'r amser hwn y gwelais i lythyr Beti. Fe ymatebais i a chael ateb yn syth gan Beti a Bobi. Mewn wythnos roedd cangen Cyd yn Llambod gyda thua phymtheg o bobl, dysgwyr a Chymry Cymraeg, yn eistedd o gwmpas bwrdd yn gwneud ymdrech fawr i ddeall ei gilydd. Dyna sioc ofnadwy i'r gŵr a minne oedd gorfod dweud 'Fy enw i yw ...'. Gartref doedd dim angen dweud wrth neb pwy oeddech chi! A beth yw'r gair yma 'Ro'n'? Ond bu'r bore yn llwyddiant.

Yn raddol dros yr wythnosau, ro'n ni wedi dod i deimlo'n gartrefol gyda'r bobl, y lle, a'r siarad, ac yn raddol diflannodd y swildod a'r ofn. Ac yn raddol dyna'r hyder a'r gallu i siarad yn cynyddu.

Wrth i'r wythnosau a'r misoedd o gyfarfodydd Cyd fynd heibio fe ddaeth mesur o rwyddineb. Gyda phobl yng nghyfarfodydd Cyd does dim ots am gangymeriadau neu seibiau hir rhwng geiriau. Ac wedyn yn syndod 'Dwi'n gallu siarad Cymraeg!' - lincyn-loncyn o leiaf!

Mae Cyd Llambod yn dal i gwrdd bob wythnos trwy'r flwyddyn. Bob wythnos mae cyfle i ddysgu rhywbeth newydd a gwerthfawrogi ein ffrindiau Cymraeg. I ni mae Cyd wedi cyflawni bob nod a oedd yng ngwledigaeth Bobi a Beti Jones. Diolch iddyn nhw.

### Geirfa

sylyfaenwyr	<i>founders</i>
amyneddgar	<i>patient</i>
medrus	<i>skilful</i>
ymarfer	<i>to practise</i>
swnio	<i>to sound</i>
syniad	<i>idea</i>
cychwyn	<i>to start</i>
digalon	<i>downhearted, depressed</i>
rhoi'r gorau iddi	<i>to give up</i>
yn raddol	<i>gradually</i>
brwydr	<i>struggle</i>
offerynnau	<i>tools</i>
egni	<i>energy</i>
teimlo	<i>to feel</i>
taflu	<i>to throw</i>
anobeithiol	<i>hopeless</i>
estyn	<i>to stretch</i>
ateb	<i>answer</i>
ymdrech	<i>effort</i>
goroesi	<i>to survive</i>
cartrefol	<i>at home</i>
swildod	<i>shyness</i>
ofn	<i>fear</i>
hyder	<i>confidence</i>
medrusrwydd	<i>proficiency</i>
mesur o rwyddineb	<i>a measure of fluency</i>
camgymeriadau	<i>mistakes</i>
seibiau	<i>pauses</i>
lincyn-loncyn	<i>slowly</i>
gwerthfawrogi	<i>to appreciate</i>
cyflawni	<i>achieve</i>
gwledigaeth	<i>vision</i>

Cadwyn

## DE-ORLLEWIN CYMRU

## Cangen Cyd Bro DJ

Fel y gwelwch mae Cangen Cyd Bro DJ wedi bod yn teithio i bob man. Gallwch ddarllen am eu campau a digwyddiadau arfaethedig yn Y Llien Gwyn, Papur Bro misol Abergwaun a'r Cylch.

*As you can see the Cyd Bro DJ Branch have been on their travels. You can read about their exploits and forthcoming events in the Y Llien Gwyn, the local monthly Welsh Paper for Fishguard and District.*



*Cangen Cyd Bro DJ ar bwys Castell Aberteifi a charreg goffa'r Arglwydd Rhys*



*Taith Gerdded Cyd Bro DJ a Cyd Bro Dewi i Garn Siân a Bedd Arthur yn y Preseli, Geraint, Cari, Richard Vaughan o'r Parc Cenedlaethol, Wendy a Dewi*



*Gwibdaith Cyd Bro DJ i Lyfrgell Genedlaethol Cymru*

Ffred yn rhoi "pwff" peiriant Rheilffordd Gwili i'w gacen pen-blwydd

Mae Ffred yn enwog am ei waith i Rheilffordd Gwili.

Dysgwraig y Flwyddyn  
2002 ar Daith Gerdded Cyd

Daeth Dysgwraig y Flwyddyn 2002, Alice Traile James, ar Daith Gerdded Cyd ganol fis Mehefin.

Cyd Cilgeti a Dinbych y Pysgod oedd wedi trefnu'r daith.

Roedd y daith o gwmpas Llanddewi Felfre, ger Hendygywyn, a brodor (*a native*), o'r ardal, Geraint Davies, oedd yn arwain y daith. Mae Geraint yn dal i fyw yn y pentre.

Gwelodd y Dysgwyr a'r Cymry Cymraeg ehangder (*panorama*) Dyffryn Marlais, a chlywed am gymeriadau'r ardal. Gwelwyd hefyd un o hen blasdai yr ardal yn cael ei adnewyddu.

Ymwelwyd â hen eglwys y plwyf, a chyn diwedd y noson chwaraewyd tŷn Gymraeg ar y piano gan berchennog tafarn Llanddewi.

Roedd cefnogwyr o Hwlfordd, Llanwinio, a Glandwr hefyd wedi ymuno â'r daith.

Mae croeso i ddysgwyr Cymraeg eraill, a Siaradwyr Cymraeg i ymuno â digwyddiadau Cyd, trwy ffonio Averil, [01834] 813749

**Canghennau Newydd**

Mae Cyd newydd sefydlu canghennau mewn nifer o leoedd yn sir Gaerfyrddin a sir Benfro, er mwyn i ddysgwyr a Chymry Cymraeg gael cyfle i ymarfer eu Cymraeg.

Os hoffech chi ymuno ag un o'r grwpiau newydd, mae croeso i chi gysylltu â Swyddfa Cyd yn Aberystwyth.

**PAPUR BRO a THREFNU**

Mae un o gefnogwyr Cyd yn y De-orllewin, Albie Abbott, yn gofalu am Golofn i'r Dysgwyr ym mhapur bro ardal San Clêr a Hendygywyn ar Daf. Enw'r papur bro yw *Y Cardi Bach*. Gwraig Albie hefyd, Delia, yw Cysylltydd newydd Cyd ym Mro'r Preseli.

Mae Dewi Rhys Jones wedi trefnu llawer o ddigwyddiadau Cyd yn sir Benfro. Gydag aelodau Cyd Bro DJ [Ardal Abergwaun] a Cyd Bro Dewi [ardal Tyddewi], mae Dysgwyr a Chymry Cymraeg wedi mwynhau ymweliadau â lleoedd diddorol a dysgu llawer o Gymraeg. Diolch yn fawr Dewi. Diolch hefyd i berchnogion a staff Siop DJ. am eu help.

## At y Tiwtoriaid

Er nad oes gan Cyd bolisi ynglyn â dulliau dysgu Cymraeg, mae'n fraind cael cyhoeddi llyfr ein Llywydd Anrhydeddus, Bobi Jones, *Dysgu Cyfansawdd*. Mae'r llyfr yn astudiaeth o ddulliau dysgu Cymraeg fel ail iaith i blant ac oedolion dros y blynyddoedd ac mae'n cynnwys argymhellion ar gyfer y dyfodol. Gobeithia'r awdur y bydd o gymorth i awduron cyrsiau newydd a'r rhai sy'n adolygu cyrsiau sydd eisoes yn bodoli. Pwysleisia Bobi yr angen am gyflwyno'r iaith mewn ffordd strwythuredig gan weu geirfa ddefnyddiol a diddorol i mewn wrth fynd ymlaen. Gwelir y llyfr ar wefan Cyd [www.aber.ac.uk/cyd](http://www.aber.ac.uk/cyd)

## Llyfr y Flwyddyn

**O! TYN Y GORCHUDD: Hunangofiant Rebecca Jones**  
Angharad Price (Gwasg Gomer £5.95)  
Adolygiad gan Mary Burdett-Jones

Dyweddod yr Athro Dafydd Bowen wrthyf y dylwn ddarllen y nofel hon. Roedd hi wedi ennill y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd. Rwyf yn ddiolchgar iawn iddo. Fel un o'r beirniaid, yr Athro Hywel Teifi Edwards, fe gefais fy nghyffwrdd hyd at ddagrau gan y llyfr. Mae'r bennod gyntaf yn farddoniaeth bur. Ceir hanes bywyd merch (a fu farw mewn gwirionedd yn 11 oed) sy'n byw drwy newidiadau mawr yr ugeinfed ganrif.

Lleolir y nofel yng Nghwm Maesglasau, Sir Feirionnydd. I ddysgwyr profiadol sy'n gwneud yr ymdrech i'w darllen, bydd yn cyfleu'r ymlyniad wrth le sy'n gymaint o nodwedd o lenyddiaeth Gymraeg. Mae'r nofel yn farwnad, fel llawer o lenyddiaeth Gymraeg, i ffordd goll o fyw neu ffordd o fyw sy'n cael ei bygwth. Bywyd gwledig, tlawd ar un olwg, ac eto'n hynod o gyfoethog yn ddiwylliannol. Sonmir am estroniaid yn ymfudo i'r ardal, heb gymathu. Gellid gofyn a yw'n bosibl byth i bobl o gefndir mor wahanol ymdoddi i mewn i gymuned wledig. Gellid gofyn hefyd a yw dysgu'r iaith yn unig yn ddigon heb amgylfred y diwylliant, a faint o'r diwylliant sy'n debygol o apelio at bobl o'r tu allan, ac ati. A siarod o'm profiad fy hun fel Saesnes, dysgais lawer oddi wrth nofelau Kate Roberts am galedi bywyd ardaloedd y chwareli llechi. Rwy'n siwr y bydd dysgwyr yn dysgu am y bywyd gwledig Cymraeg wrth ddarllen y nofel hon. Mae lenyddiaeth yn cyfathrebu. Y peth pwysicaf ynglŷn â'r nofel hon yw thema henaint. Mae'n dilyn y ffordd y mae dyn yn symud drwy'r cenedlaethau. Dyna yw gogoniant y nofel.

Mae dyfyniadau o waith Hugh Jones (1749-1825), bardd a aned ym Maesglasau, yn cael eu gwneud drwy'r nofel hon. Mae'r teitl yn dod o emyn o'i waith. Mae'n adrodd hanes teulu a gynhwysai dri brawd dall. Cyfeirir at y distawrwydd y sonnir amdano mor hyfryd yn y bennod gyntaf mewn trosiad estynedig ar ddiwedd y llyfr i ffurfio cylch.

Daeth nofelau W. G. Sebald i'm meddwl wrth ystyried y nofel hon. Mae ei waith ef hefyd yn cyfleu hiraeth am fyd coll drwy gyfrwng cyfuniad o hanes a dychymyg, sy'n troi'n greadigaeth newydd. Diddorol oedd darllen wedyn yn y cylchgrawn llenyddol *Taliesin*, mewn rhifyn diweddar sy'n trafod llenyddiaeth yr Almaen, fod Angharad Price wedi cael ei hysbrydoli i sgrifennu'r nofel hon gan nofelau Sebald. Gallwch ddarllen rhagor am Angharad Price mewn rhifyn diweddar o'r *New Welsh Review*.

Dylai'r nofel hon gael ei chyfieithu i'r Saesneg ac i ieithoedd eraill, i'r Saesneg mewn argraffiad gyda'r ddaustun yn gyfochrog, y Saesneg ar y chwith a'r Gymraeg ar y dde. Wrth wneud hynny, gellid achub ar y cyfle i symud ambell i esboniad megis yr un am Gymdeithas Dafydd ap Gwilym, Prifysgol Rhydychen, o'r testun i nodyn. Er dweud y dylid cyfieithu'r nofel, mae cymaint yn aros ynghlwm wrth yr union eiriau Cymraeg heblaw'r dyfyniadau o farddoniaeth, gan fod y llyfr yn grisialiad o ffordd o fyw mewn lle arbennig. Da yw gweld bod Betsan Llwyd yn darllen y nofel ar CD a gyhoeddir gan Gwmni Tympan.

Credaf y byddai'n werth i ddysgwyr profiadol ymdrechu i ddarllen y gyfrol, efallai er mwyn medru ei hailddarllen ym mhen blynyddoedd. Mae'r nofel o werth parhaol ac mae'n siwr y bydd yn cael ei hastudio mewn blynyddoedd i ddod. Calonogol iawn yw gweld y gymuned Gymraeg yn cynhyrchu lenyddiaeth o'r fath safon uchel. Cafodd y nofel wob'r 'Llyfr y Flwyddyn' gan Gyngor Celfyddydau Cymru yng Ngwyl y Gelli eleni. Mae'r llyfr hwn yn rheswm da i unrhyw un sydd â diddordeb mewn lenyddiaeth i ddysgu'r iaith Gymraeg, oherwydd ei fod yn llawer mwy na thestun i'w astudio - mae'n brofiad.

### Geirfa

O! Tyn y Gorchudd  
hunangofiant  
Medal Ryddiaith  
cyffwrdd hyd at ddagrau  
mewn gwirionedd  
lleolir  
ymdrech  
ymlyniad wrth le  
nodwedd  
marwnad  
bygwth  
bywyd gwledig  
ar un olwg  
yn ddiwylliannol  
estroniaid  
ymfudo  
cymathu  
ymdoddi

*O! Remove the veil  
autobiography  
Prose Medal  
to move to tears  
in actual fact  
is set  
effort  
attachment to place  
a characteristic  
elegy  
to threaten  
rural life  
in one respect  
culturally  
strangers  
to move, migrate  
to become assimilated  
to blend, become absorbed*

cymuned  
amgylfred  
chwareli llechi  
cyfathrebu  
cenedlaethau  
dyfyniadau  
gweu  
cynhwysai  
dall  
distawrwydd  
trosiad estynedig  
cylch  
hiraeth  
cyfuniad  
hanes  
dychymyg  
creadigaeth  
llynyddol  
yr Almaen  
ysbrydoli  
cyfieithu  
yn gyfochrog  
achub ar y cyfle  
esboniad  
ynghlwm  
yr union eiriau  
heblaw  
grisialiad  
ffordd o fyw  
ymdrechu  
aiddarllen  
ymhen blynyddoedd  
gwerth parhaol  
calonogol  
o'r fath safon  
gwobr  
Cyngor Celfyddydau Cymru  
Gwyl y Gelli  
testun  
profiad

community  
to comprehend  
slate quarries  
to communicate  
generations  
quotations  
to weave  
included  
blind  
silence  
extended metaphor  
circle  
longing  
combination  
history  
imagination  
creation  
literary  
Germany  
to inspire  
to translate  
parallel  
to take the opportunity  
explanation  
bound up with  
the exact words  
apart from  
crystallization  
way of life  
make an effort  
to reread  
in years to come  
lasting value  
encouraging  
of such a standard  
prize  
Arts Council of Wales  
Hay-on-Wye Literary Festival  
text  
experience

**Llyfrau gwyh  
i hosan 'Dolig  
y dysgwyr!**

NOFELAU  
NAWR

**TRI CHYNNIG  
I BLODWN  
JONES**

BETHAN

**CIWARAE HIG**

12 llyfr yn y gyfres  
£3.50 yr un

**Stori  
a mwy**

damau dilyr  
i dlysgwyr

**Beth yw Stori a Mwy?**

- straeon
- deialogau
- posau
- ffeithiau
- cartwnau

**GOMER**

LLANDYSUL - CEREDIGION  
SA44 4QL

01559 362371  
01559 363758

e-bost: [meintr@gomer.co.uk](mailto:meintr@gomer.co.uk)



## PROFIAD DYSGWWR

### Pam wyt ti'n dysgu Cymraeg?

Lleucu Dunn

Ces i fy ngeni yng Nghaer, felly ro'n i bob amser yn ymwybodol o fodolaeth gwlad arall gyda'i hiaith ei hunan, gwlad yn agos iawn i fy nghartref. Pan ro'n i'n blentyn sylwais ar iaith wahanol ar yr arwyddion yn strydoedd Caer - roedd hi'n ymddangos yn iaith amhosibl ei deall. Yn yr ysgol uwchradd roedd rhaid i bawb ddysgu Ffrangeg, a phenderfynais i astudio Almaeneg a Sbaeneg hefyd. Byddai wedi bod yn amhosibl dysgu Cymraeg, er bod llawer o bobl yn siarad Cymraeg tua deg milltir i ffwrdd yn Wrecsam, dinas yr oedd llawer o athrawon yr ysgol yn byw ynddi. Astudiais i Ffrangeg a Sbaeneg mewn prifysgol yn yr Alban, gwlad arall ble mae'r bobl yn siarad iaith Geltaidd - Gaelleg yr Alban. Dyma'r iaith arall nad ydym braidd yn meddwl amdani. Roedd ychydig o raglenni Gaelleg ar y teledu, ond doedd dim llawer o ddi-ddordeb ymysg y myfyrwyr yn iaith yr Alban. Yn anffodus, dwi'n credu bod Gaelleg yn rhywbeth chwerthinllyd yng ngolwg mwyafrif y bobl yno.

Pan es i Ffrainc i weithio fel *au pair* ar gyfer teulu Ffrengig bedair blynedd yn ôl, aethon ni i Lydaw ar wyliau. Yna dechreuais ddod yn ymwybodol o'r iaith leol, Llydaweg, nad yw'n debyg i Ffrangeg o gwbl. Ar ôl imi adael Ffrainc, treuliais flwyddyn yng Ngwlad y Basg, yn Iruna. Gweithiais mewn ysgol uwchradd ble cafodd y dosbarthiadau i gyd eu dysgu mewn Basgeg. Dyna le y clywais am hanes Gwlad y Basg a'i hiaith. Cafodd yr iaith ei gwahardd gan Franco yn ystod ei unbennaeth a barhaodd am bron 40 mlynedd. Ond nawr mae'r plant yn mynd i'r ysgolion ble mae pawb yn siarad dim ond Euskera, er mwyn adfer iaith hynaf Ewrop.

Pan es i unwaith eto i Lydaw yr haf dilynol, chwiliais am arwyddion o'r iaith Geltaidd ac ro'n i eisiau gwybod mwy am hanes cudd y wlad. Ar ôl imi orffen fy nghwrs yn y brifysgol, penderfynais wneud gwaith gwirfoddol am flwyddyn. Ces i fy nghyfle yng Nghaerdydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Y Waun Ddyfal. Pan ddarganfyddais y byddwn i'n byw yng Nghymru fy nheimpladau cyntaf oedd 'O'r diwedd caf gyfle i ddysgu'r iaith yma sydd wedi bod mor agos ac mor bell o'm cartref'. Hyd nes imi fyw yng Nghaerdydd doeddwn i ddim yn credu y gallwn adnabod yr iaith Gymraeg petawn i'n clywed pobl yn siarad Cymraeg ar y strydoedd yng Nghaer. Doeddwn i ddim yn hoffi'r sefyllfa honno - ro'n i'n gallu siarad â phobl o Algeria, o Ariannin ac o'r Almaen, ond doeddwn i ddim yn gallu adnabod iaith sy'n cael ei siarad tua deg milltir o'm cartref.

Pan gyrhaeddais Gaerdydd, dechreuais chwilio am gwsr Cymraeg rhad. Buasai wedi ymddangos yn anfoesgar imi fyw yng Nghymru heb geisio dysgu iaith y wlad. Dywedodd pobl wrthyf, 'Paid â phoeni. Does dim rhaid iti ddysgu Cymraeg er mwyn gweithio mewn ysgolion yng Nghaerdydd achos mae pawb yn siarad Saesneg'. Gofynnodd pobl eraill imi, 'Pam wyt ti eisiau dysgu Cymraeg? Does dim angen. Fydd y Gymraeg ddim yn ddefnyddiol i ti yn y dyfodol. Fydd siarad Cymraeg ddim o help iti ffeindio gwaith'. Gofynnais i fy nhiwtor yn y sector wirfoddol, 'Ble galla i wneud cwsr Cymraeg da yng Nghaerdydd'. Dywedodd wrthyf, 'Wn i ddim. Bydd rhaid imi holi. Ti yw'r gwirfoddolwr cyntaf erioed sydd eisiau dysgu Cymraeg!'

Ond darganfyddais gwsr rhad mewn canolfan leol heb broblem. Gwnes un tymor yn y dosbarth cyn symud i Sbaen i barhau gyda gwaith gwirfoddol arall. Ond pan o'n i'n byw yng Nghymru, cyfoethogodd y Gymraeg fy mhrofiadau i yn fawr iawn. Roedd dysgu Cymraeg yn rhoi boddhad ac roedd yn ddiddorol iawn. Galluogodd fi i ddysgu llawer am Gymru, ei phobl a'i hanes. Gwelais y wlad drwy lens gwahanol i'r lens Saesneg neu'r lens 'Brydeinig'. Sylwais fod y plant yn yr ysgolion yn ymdopi â chynaniad geiriau Cymraeg gyda'r acen gywir yn hawdd. Hefyd, dwi'n credu bod plant sy'n siarad dwy iaith ers eu plentyndod yn fwy tebyg na phlant uniaith i lwyddo i feistroliaeth ieithoedd eraill. Ac mae'n bwysig pwysleisio'r ffaith yma, os yn ni'n ystyried perfformiad cywilyddus *anglophones* yn y byd ynglŷn â dysgu ieithoedd.

Mae Cymraeg yn dioddef yn fawr, fel ieithoedd brodorol i gyd mewn gwledydd wedi'u trefedigaethu ble mae mwyafrif y bobl yn siarad iaith fyd-eang. Ond yn anffodus mae'r Gymraeg wedi cael ei chosbi yn waeth gan fod ganddi ffin â Lloegr, gwlad lle mae'r bobl yn siarad yr iaith gryfaf yn y byd. Bob dydd mae'r byd yn dod yn fwy *anglocentric* ac mae'r Saesneg

yn dechrau tra-arglwyddiaethu ar ieithoedd fel Ffrangeg a Sbaeneg. Yn ôl ystadegau brawychus y Cenhedloedd Unedig bydd 85% o ieithoedd y byd wedi marw ymhen can mlynedd. Yn fy marn i dylai pawb ymdrechu i sgrifennu, siarad, darllen, hyrwyddo ac achub yr ieithoedd yma. Yng Nghymru, rydym ni'n gallu dechrau gyda'r Gymraeg. Mae goroesiad yr ieithoedd yma yn dibynnu arnom ni.

#### Geirfa

ymwybodol	<i>aware</i>
bodolaeth	<i>existence</i>
sylwi	<i>to notice</i>
arwyddion	<i>signs</i>
ymddangos	<i>to appear</i>
ysgol uwchradd	<i>secondary school</i>
astudio	<i>to study</i>
prifysgol	<i>university</i>
yr Alban	<i>Scotland</i>
braidd	<i>scarcely</i>
raglenni	<i>programmes</i>
anffodus	<i>unfortunately</i>
chwerthinllyd	<i>laughable</i>
mwyafrif	<i>majority</i>
treulio	<i>to spend (time)</i>
Gwlad y Basg	<i>the Basque Country</i>
gwahardd	<i>to forbid</i>
unbennaeth	<i>dictatorship</i>
cudd	<i>hidden</i>
penderynu	<i>to decide</i>
cyfle	<i>chance</i>
ysgolion cynradd	<i>primary schools</i>
darganfod	<i>to discover</i>
teimpladau	<i>feelings</i>
adnabod	<i>to recognize</i>
petawn	<i>if I were to</i>
sefyllfa	<i>situation</i>
Ariannin	<i>Argentina</i>
Yr Almaen	<i>Germany</i>
rhad	<i>inexpensive</i>
anfoesgar	<i>ill-mannered</i>
poeni	<i>to worry</i>
defnyddiol	<i>useful</i>
angen	<i>need</i>
gwirfoddol	<i>voluntary</i>
gwirfoddolwr	<i>volunteer</i>
canolfan leol	<i>local centre</i>
cyfoethogi	<i>to enrich</i>
profiadau	<i>experiences</i>
boddhad	<i>satisfaction</i>
galluogi	<i>to enable</i>
ymdopi â	<i>to manage</i>
cynaniad	<i>pronunciation</i>
acen gywir	<i>correct accent</i>
plentyndod	<i>childhood</i>
uniaith	<i>monolingual</i>
meistroliaeth	<i>to master</i>
pwysleisio	<i>to emphasize</i>
ystyried	<i>to consider</i>
cywilyddus	<i>shameful</i>
brodorol	<i>native (adj.)</i>
wedi'u trefedigaethu	<i>colonized (pl.)</i>
byd-eang	<i>world-wide</i>
cosbi	<i>to punish</i>
ffin	<i>border</i>
tra-arglwyddiaethu	<i>to dominate</i>
ystadegau	<i>statistics</i>
y Cenhedloedd Unedig	<i>the United Nations</i>
yn fy marn i	<i>in my opinion</i>
ymdrechu	<i>to make an effort</i>
hyrwyddo	<i>to promote</i>
achub	<i>to save</i>
goroesiad	<i>survival</i>
dibynnu	<i>to depend</i>

Cadwyn

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU MALDWIN A'R GORORAU



Stodin Cyd




Sesiwn Gêmau Iaith



Enillwyr Cwis Cenedlaethol Cyd

Cydradd ail  
joint second

Enillwyr Cwis Cenedlaethol Cyd

1af  
1st

### Panel Golygyddol Cadwyn

#### Annwyl Gyfeillion

Pwy sy wedi clywed am William 'Oriental' Jones, Cymro o Lundain, a gwr bonheddig oedd yn enwog yn ei ddydd. Ganwyd yn *Beaufort Buildings, Westminster* ar 28ain o Fedi 1746. Ganwyd ei dad William yn Llanbabo, Môn. Mary oedd enw ei fam.

Bu 'Oriental' o 1775 hyd 1783 yn far-gyfreithiwr ar gylch Caerfyrddin, ardal oedd yn cynnwys llysoedd Aberteifi, Caerfyrddin a Hwlfordd. Mae e'n enwog heddiw o blith ieithyddwyr oherwydd mai fe oedd y cyntaf i awgrymu fod yr ieithoedd Celtaidd (e.e. y Gymraeg), yr ieithoedd Germaneg (e.e. Saesneg), yr ieithoedd Clasurol, a Sansgrit, ymhlith eraill, yn tarddu o un iaith wreiddiol nad yw'n bodoli bellach, ac maen nhw i gyd yn rhan o'r un teulu Indo-Ewropeaidd. O ganlyniad i'r datganiad enwog hwn yn 1786, fe ydy sylfaenydd ieithyddiaeth fodern. Bu'n enwog fel barnwr (yn India), dwyreinydd, ieithydd, awdur a chyfieithydd.

Braf fyddai gweld cymdeithasau dinesig Aberteifi, Caerfyrddin a Hwlfordd yn gosod placiau ar flaen hen lysoedd y trefi hyn, a Chymdeithas Cymry Llundain yn gosod plac ar 'Beaufort Buildings' yn Westminster.

Os ydych chi, aelodau a changhennau Cyd, yn cefnogi'r syniad hwn, a wnewch chi ysgrifennu at Mrs Barbara Myers yn y cyfeiriad isod i fynegi eich cefnogaeth os gwelwch yn dda?

Mrs Barbara Myers, Ysgrifenyddes, Hanes Aberteifi, Canolfan Trefntadaeth Aberteifi, Cei Aberteifi, Ceredigion SA43 3AA.

*Yn gywir  
Cyd Bro DJ (Abergwaun)*

## Eisteddfod GENEDLAETHOL CYMRU

### Casnewydd a r @lch

Gorffennaf 31-7 Awst 2004  
July 31-7 August 2004

### CYSTADLAETHAU R DYSGWYR LEARNERS COMPETITIONS

gan gynnwys  
llefau, sgets,  
perfformio c n,  
ynghyd  
Chystadlaethau  
Cyfansoddi a  
Chystadlaethau  
i Ysgolion



including  
recitation,  
sketch,  
perform any  
song, also  
Composition  
and School  
Competitions

Manylion y cystadlaethau yn y Rhestr Testunau - ar gael o Swyddfa r Eisteddfod ac ar y safwe [www.eisteddfod.org.uk](http://www.eisteddfod.org.uk)  
Competition details on the website and in the Rhestr Testunau - available from the Eisteddfod Office

Swyddfa r Eisteddfod, 33 Stryd y Bont, Casnewydd NP20 4BH  
T: 0845 120 9555 F: 01633 265 014  
[rebecca@eisteddfod.org.uk](mailto:rebecca@eisteddfod.org.uk)

# Cadwyn

## YR ALMAEN

### Portread o Michael Fleming

Mae Michael yn byw yn yr Almaen. Roedd e'n byw yn Lloegr pan oedd e'n blentyn. Cymraes oedd ei fam ond ddysgodd e ddim o'r Gymraeg.

'Wyth mlynedd yn ôl dechreuais i ddysgu ar fy mhen fy hun; prynais i lyfrau a chasetiau ac ati. Chwe blynedd yn ôl mynychais i gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn, ond roedd e'n rhy fyr, dim ond pum diwrnod. Roedd y cwrs yn ddefnyddiol (*useful*) iawn. Mae llawer o nofelau gyda fi, ac dw i'n gallu darllen Cymraeg yn eitha da erbyn hyn, ond does dim cyfle i siarad yr iaith fan hyn yn yr Almaen. Felly dw i wedi bod yn ceisio cysylltu â Chymry Cymraeg'.



A dyna sut daeth Cyd i nabod Michael trwy dderbyn e-bost oddi wrtho fe.

'Erbyn hyn dw i wedi ymdeol ond roeddwn i'n gweithio mewn ffatri papur yn yr Adran Allforio (*export department*)'.

Mae Michael yn hoffi cerdded ac yn hoff iawn o gerdded yng nghefn gwlad Cymru. Hefyd mae'n hoffi saethyddiaeth (*archery*) a darllen. Mae mwy na pedwar deg (40) o nofelau Cymraeg gyda fe. Mae e'n gyfieithydd rhan-amser (*part time translator*), yn cyfieithu o'r Almaeneg i'r Saesneg.

Os dych chi'n nabod rhywun sy'n byw yn yr Almaen, ac sy'n siarad Cymraeg, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda er mwyn i ni (*in order for us*) helpu Michael ymarfer siarad Cymraeg.

### Cyfarfod Cymraeg yn Halle 17-19 Hydref

*Britta Schulze-Thulin*

Dyma oedd y tro cyntaf i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yr Almaen gwrdd. Roedd yr achlysur, a hysbysebwyd yn *Cadwyn* 44, yn llwyddiant mawr. Daeth pobl o bob rhan o'r Almaen, Munich, Münster, Lörrach, ar bwys Basel, a Chwlen (Cologne) at ei gilydd er mwyn siarad Cymraeg a chymryd rhan mewn rhaglen ddiddorol.

Ar y nos Wener cawson ni gwrw Prydeinig mewn tafarn o'r enw 'Y Connoisseur' - lle ag enw Ffrangeg ond bod y gweinydd yn gwisgo cilt! Braff iawn oedd clywed Cymraeg yn Halle am y tro cyntaf! Ar wahân i'r siaradwyr Cymraeg a oedd wedi teithio o bell, roedd hefyd rhai pobl lleol o Halle, er nad oeddent wedi cofrestru, er mwyn dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg.

Y bore wedyn cawson ni goffi a the yn swyddfa dwristiaeth Halle, cyn mynd am dro o gwmpas Halle a chlywed am y lle drwy gyfrwng y Gymraeg - am y tro cyntaf erioed yn Halle mae'n debyg. Gwelson ni'r holl bethau a oedd yn werth eu gweld, gan gynnwys y farchnad gyda'i phum twr, Cofeb a Thy Händel, yr Eglwys Gadeiriol, y Palas Newydd, Castell Moritz a'r Brifysgol, cyn cael cinio ar bwys Adeilad Christian Wolff. Yn y prynhawn aethon ni i Ferseburg, gyda'r eglwys gadeiriol, yr amgueddfa a'r castell.

Yr uchafbwynt nesaf oedd y cwis tafarn fin nos, sef 25 cwestiwn am Gymru. Er enghraifft, oeddech chi'n gwybod fod Robert Recorde o Ddinbych-y-Pysgod wedi dyfeisio'r hafalnod yn 1550? Mai Cymraeg yw mamiaith yr actor John Rhys Davies sy'n chwarae'r Gimli yn 'Lord of the Rings'? Yr Enillydd oedd Markus Wursthorn (Lörrach), gyda Peter Busse (Berlin) a Susanne Hofbauer (Munich) yn dilyn yn agos.

Ar y dydd Sul fe aethom ni i Hohnstedt, sef ardal fwyaf gogleddol yr Almaen sy'n cynhyrchu gwin. Daeth 20 o bobl at ei gilydd. Cawson ni ein harwain drwy'r gwinllannau gan y dyn sy'n gwneud y gwin. Ar ôl cinio, cawson ni brofi gwin o Gymru - o Fynwy, o'r

Fenni ac o Aberaeron - chwe math gwahanol i gyd a chlywed ychydig am bob un. Roeddent yn sych ond yn dda! Ac wedyn gwelsom ni sleidiau am Gymru - golygfeydd, pobl, cestyll a llawer mwy.

Ar y min nos fe aethom ni yn ôl i Halle ac i dafarn Wyddelig. Does dim tafarn Gymreig ar hyn o bryd - ond fe ddaw! Roedd canu'n iach yn galed iawn ar ôl bod gyda'n gilydd am dridiau. Hwyl fawr a chroeso i bawb unwaith eto i Halle yn y dyfodol!

Dwi'n meddwl fod pawb wedi mwynhau. Bydd Cyfarfod Cymraeg yn yr Almaen yn digwydd bob blwyddyn yn y dyfodol - bydd yr un nesaf yn cael ei gynnal yn Berlin. Bydd yn cael ei drefnu gan Dr Peter Busse (520061290454-0001@T-Online.de).

### Geirfa

Yr Almaen  
llwyddiant  
cofrestru  
swyddfa dwristiaeth  
mynd am dro  
cynnal  
marchnad  
tŵr  
cofeb  
eglwys gadeiriol  
prifysgol  
ar bwys  
amgueddfa  
uchafbwynt  
dyfeisio  
hafalnod  
mamiaith  
ennill  
cynhyrchu  
gwinllan  
profi gwin  
golygfeydd  
cestyll  
canu'n iach  
rywryd  
dyfodol  
mwynhau  
trefnu

*Germany  
success  
to register  
tourist office  
to go for a walk  
to hold  
market  
tower  
memorial  
cathedral  
university  
near  
museum  
highlight  
to devise  
equals sign  
mother tongue  
to win  
to produce  
vineyard  
to taste wine  
scenes  
castles  
to bid farewell  
some time  
future  
to enjoy  
to arrange*





## Y PROFAD O DDARLEN ...

**UN NOS OLA LEUAD** Caradog Prichard  
Ann-Marie Hinde

Pan ydych chi'n ddysgw'r/wraig ac mae'n rhaid i chi chwilio am bob yn ail air yn y geiriadur, mae'n gallu cymryd amser hir i ddarllen llyfr yn Gymraeg. Felly mae'n help i gael rhyw gymhelliad arall (yn ogystal ag i wella eich Cymraeg). Mae eisiau i'r llyfr fod am rywbeth y mae gennych ddi-ddordeb ynddo neu'n llyfr sy'n eich ysbrydoli chi. Mae *Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Prichard yn llyfr felly. Cafodd y nofel ei chyhoeddi yn 1961. Gosodir hi yn fras yn y cyfnod rhwng 1914-1920 mewn pentref tebyg i Bethesda, lle cafodd Caradog Prichard ei fagu. Cefndir y nofel yw dylanwad Streic Fawr Chwarel y Penrhyn (1900-1903), Digwygiad 1904, a'r Rhyfel Mawr.

Ysgrifennir y nofel yn nhafodiaith Bethesda yng ngeiriau dyn (nad yw'n cael ei enwi) trwy ei atgofion wrth iddo gerdded trwy bentref ei blentynnod ar noson 'ola leuad'. Nid yw ei atgofion mewn trefn amserddol ond mae hynny'n angenrheidiol i eironi'r nofel sawl gwaith a hefyd mae'n addas gan mai gwallgofrwydd yw thema'r nofel.

Uchafbwynt emosïynol y nofel yw pan gymerir mam yr adroddwr (sy'n wraig weddw) i'r seilam a cheir darn pwerus, tyner a thrist dros ben lle mae'r bachgen (yr adroddwr) yn beichio crïo ar ôl iddo ei gadael hi yno.

Mae awgrym cryf bod yr adroddwr yn wallgof, ei fod e'n lladd Jini Bach Pen Cae (y ferch, mae'n debyg, y mae'n cael ei brofiad rhywiol cyntaf â hi), a'i fod yn boddi i hun yn y llyn yn y diwedd, ond gadewir beth yn hollol a ddigwyddodd yn amwys. Mae'n nofel drist ond mae hiwmor ynddi hefyd. Ysgrifennwyd hi o brofiadau personol Caradog Prichard oherwydd fe gymerwyd ei fam ei hun i ysbyty meddwl cyn iddo fod yn ugain oed ac fe arhosodd hi yno am weddill ei hoes.

Ceir yn *Un Nos Ola Leuad* bortread o gymdeithas sy'n gallu creu gwallgofrwydd - cymdeithas gul sy'n gallu bod yn greulon. Lle'n aml y ceir gwadu rhywioldeb; lle y mae rhyw yn cael ei gysylltu yn aml â thrais; lle y mae ofn, a grëir gan grefydd a'r rhagrith mewn cysylltiad â chrefydd, yn amlwg; lle y mae menywod yn dibynnu ar eu gwŷr ac y mae sefyllfa gwraig weddw yn un ddi-rym; lle, yn fyr, y mae pobl yn gallu 'mynd o'u coua' (yng ngeiriau'r nofel) oherwydd natur y gymdeithas. Mae'r nofel yn taflu goleuni ar y pethau hyn, mae'n creu delweddau cryf yn eich meddwl ond mae ynddi hefyd lawer o gwystiynau nad oes ateb iddynt.

### Geirfa

bob yn ail air  
cymhelliad  
ysbrydoli  
cyhoeddi  
dylanwad(au)  
yn fras  
Diwygiad  
tafodiaith  
atgofion  
plentyndod  
amserddol  
angenrheidiol  
gwallgofrwydd  
uchafbwynt  
seilam  
beichio crïo  
adroddwr  
gwallgof  
rhywiol  
boddi  
digwydd  
amwys  
profiad  
gweddill ei hoes  
cul  
rhywioldeb  
cysylltu  
trais  
crefydd  
rhagrith  
cysylltiad  
amlwg  
dibynnu  
sefyllfa  
di-rym  
mynd o'i go(f)  
delwedd(au)

every other word  
motivation  
to inspire  
to publish  
influence(s)  
roughly  
Revival  
dialect  
memories  
childhood  
chronological  
necessary  
insanity  
climax  
asylum  
to sob  
narrator  
insane  
sexual  
to drown  
to happen  
ambiguous  
experience  
the rest of her life  
narrow  
sexuality  
to connect  
violence  
religion  
hypocrisy  
connection  
obvious  
to depend  
situation  
powerless  
to go mad  
image(s)

## CEFNOGWCH CYD SUPPORT CYD

Enw/Name \_\_\_\_\_  
Cyfeiriad/Address \_\_\_\_\_  
Cód Posti/Post Code \_\_\_\_\_  
Rhif ffôn/Tel no. \_\_\_\_\_  
e-bost/e-mail \_\_\_\_\_  
Cangeni Branch (os oes un o'i ddarllen) \_\_\_\_\_

Tâl cefnogi bliwyddyn/annual supporter's fee:  
£7 a £2 i fyfyrwyr/students, pensiynwyr/pensioners a'r di-waith/unemployed  
Tâl/fee \_\_\_\_\_

Cyfraniad/Contribution £ \_\_\_\_\_

Tâl Cefnogi Corfforaethol/Corporate supporters' fee:  
£20 i fudnadau gwirfoddoli/voluntary organisations and charities  
Dim llai na/less than £50 i gyffwrdd cyhoeddus a phreifat/for public and private bodies

Tâl cefnogi am oes/Individual life supporter's fee: £100

Cedwir y wybodaeth uchod ar gronfa ddata yn Swyddfa CYD, Aberystwyth  
The above information will be kept on a data base in CYD's office in Aberystwyth

Os nad oes ateb i'r enw, cyfeiriad a rhif ffôn gael eu rhoi i gefnogwyr eraill.  
If you do not wish your name, address and telephone number to be given to other supporters, please tick this box.

### Hoffwn dderbyn gwybodaeth am y gweithgareddau canlynol:

*I would like to receive information about the following activities:*

- |  |   |
|--|---|
| <input type="checkbox"/> Enw'r gangen agosaf                           | <input type="checkbox"/> The name of the nearest branch                 |
| <input type="checkbox"/> Cyfeillion llythyr                            | <input type="checkbox"/> Penpals  |
| <input type="checkbox"/> Cyfeillion ffôn                               | <input type="checkbox"/> Phone pals                                     |
| <input type="checkbox"/> e-hyti  | <input type="checkbox"/> e-mails  |
| <input type="checkbox"/> Ysgoloriaeth Dan Lynn James (£250 y flwyddyn) | <input type="checkbox"/> The Dan Lynn James Scholarship (£250 per year) |

Rhodd Gymorth/Gift Aid £ \_\_\_\_\_

### A wnech chi ddarllen y canlynol yn ofalus? / Please read the following carefully

Rwy'n datgan fy mod yn talu rhagor o dreth incwm a/neu dreth enillion cyfalaf na'r dreth y bydd Cyd yn adennill ar fy rhodd/nghyfraniad/tâl cefnogi, sef 28c ym mhob £1 a roddir ar hyn bryd, a fy mod yn fodlon i Cyd drin y rhodd uchod a phob rhodd yn y dyfodol fel rhodd gymorth.

*I declare that I pay income tax and/or capital gains tax at least equal to the tax that Cyd claims on my donations/supporter's fee in the tax year (currently 28p for each £1 you give), and I am willing for Cyd to treat the above donation and all donations in the future as gift aid.*

Llofnod/Signature \_\_\_\_\_



Dychwelwch i/Returns to:  
CYD, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU  
Ffôn/Faxes: 01970 622143  
Rhif Elusen/Charity No: 518371



## Y WDA a'r iaith Gymraeg

Mae cydraddoldeb iaith Cymru, ei diwylliant a'i hetifeddiaeth yn un o werthoedd allweddol yr Awdurdod. Mae'r WDA yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg i holl bobl Cymru a bwriedir hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ar bob cyfle.

Trwy ei waith datblygu economaidd a chymunedol mae'r Awdurdod yn ceisio cyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg i'r dyfodol a bydd darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg yn unol â dewis ein cwsmeriaid a'n clientiaid yn rhan bwysig o'r nod hwnnw.

**Ffôn: 08457 775566** [www.wda.co.uk](http://www.wda.co.uk)

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



## The WDA and the Welsh Language

The equality of the language of Wales, its culture and heritage is one of the Agency's key values. The WDA recognises the importance of the Welsh Language to the culture and heritage of all the people of Wales and will seek to promote and facilitate the use of the Welsh language at every opportunity.

Through its work in economic and community development the Agency seeks to contribute towards the future prosperity of the Welsh Language and providing our services in both English and Welsh according to customer and client choice will be an important part of that goal.

**Tel: 08457 775577** [www.wda.co.uk](http://www.wda.co.uk)



AWDURDOD DATBLYGU CYMRU  
WELSH DEVELOPMENT AGENCY